Taflenni gweithgarwch i blant

Gwybodaeth i arweinyddion grwpiau plant

Mae'r taflenni hyn ar eich cyfer chi i'w defnyddio gyda phlant (rhwng 7-11 oed) yn eich eglwys adeg Wythnos Cymorth Cristnogol. Mae'r taflenni yn dilyn yr un themâu â'r deunydd addoli ar gyfer oedolion a bwriedir hwy i gyd-fynd â'r Sgwrs ar gyfer pob oed. Croeso i chi brintio neu lungopïo taflenni'r plant (tudalennau 2-4) fel y mynnoch, (byddwch yn wyrdd – a dim ond argaffu yr hyn sydd ei angen!).

Gellir defnyddio'r taflenni:

- i'r plant eu cwblhau yn ystod gwasanaeth yn yr eglwys, efallai yn ystod pregeth i oedolion
- gyda grwpiau plant
- i'r plant fynd â hwy adref i'w cwblhau.

I ddefnyddio'r taflenni, bydd angen:

- copi o bob taflen i bob plentyn
- pensiliau i orffen y cwisiau
- glud, tâp gludiog, peniau, siswrn, papur cerdyn ayyb i wneud fframiau ffotograffau a/neu addurno blychau arian.

Cymorth Cristnogol/Olivia Arthur

Os caiff y taflenni eu defnyddio fel rhan o sesiwn hirach gyda grŵp plant, defnyddiwch y syniadau canlynol i ymchwilio'r themâu:

- Darllenwch fersiwn plant o hanes y Pentecost o Actau 2: 1-12. Gofynnwch i'r plant sut fyddai'r disgyblion yn teimlo. Soniwch fod y disgyblion cyn hyn wedi bod yn cuddio mewn ystafell gyda'i gilydd. Beth ddigwyddodd iddyn nhw? A fedrwn ni fyth deimlo'r un peth â'r disgyblion? Pa fath o bethau byddai Duw am i ni eu trafod gyda phobl?
- Sawl iaith gall y plant dweud 'helo' ynddynt?
- Dysgwch fwy am Fatimata a Musah yn y deunydd addoli i oedolion sydd ar gael ar DVD-rom Wythnos Cymorth Cristnogol 08 *Empowering People*.
- Dysgwch fwy am Ghana (chwiliwch "Ghana" ar www.globalgang.org).
- Chwaraewch gemau cyfathrebu fel:
  - Sibrydion Tsieineaidd (i ddangos pwysigrwydd medru cyfathrebu'n glir â'i gilydd)
  - Darlunio Distaw – paratowch restr o eitemau cysylltiedig â'r Pentecost/ysgol/Wythnos Cymorth Cristnogol a gofynnwch i wirfoddolyn i dynnu llun rhywbeth o'r rhestr heb ddweud gair. Rhaid i eraill ddyfalu beth sy'n cael ei ddarlunio. Mae'r gêm yma yn gweithio'n dda fel cystadleuaeth tîm os oes gennych ddigon o blant.
- Trefnwch Helfa Drysor y Pentecost trwy ysgrifennu prif nodweddion y stori ar ddarnau o bapur a'u cuddio. Gofynnwch i'r plant chwilio amdanynt a'u gosod yn y drefn iawn.
- Rowch ddarn o bapur coch, oren neu felyn ar siâp fflam i bob plentyn a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu neu dynnu llun gweddi yn ymwneud â'r hyn y maen nhw wedi ei ddysgu heddiw. Gallai'r weddi fod dros Fatimata a Musah, dros waith SEND a Cymorth Cristnogol, neu dros eu hysgol/eglwys eu hunain. Defnyddiwch y weddi i greu poster i'w arddangos yn yr eglwys.
- Codwch arian i Cymorth Cristnogol trwy ddefnyddio'r patrymau blwch arian. Neu, gwnewch fwy o fframiau ffotograffau, crefftwaith arall neu teisennau i'w gwerthu. Neu trefnwch digwyddiad noddedig i'ch grŵp.
- Gofynnwch am amser ym mhrif wasanaeth eich eglwys er mwyn dweud wrth y gynulleidfa beth y mae'r plant wedi ei wneud.

Adnoddau eraill a allai fod o gymorth i chi:

- Mae DVD-rom Wythnos Cymorth Cristnogol 08 *Empowering People* yn cynnwys lluniau, clipiau fideo, mwy o wybodaeth am waith Cymorth Cristnogol a mwy o adnoddau addoli.
- Global Gang yw ein gwefan i blant; mae'n llawn gemau, cwisiau a storïau o bob rhan o'r byd. Ewch i www.globalgang.org
- Ymwelwch â www.ca.org.uk/learn am syniadau am weithgareddau eraill i blant.

© Cymorth Cristnogol Rhagfyr 2007

Rheolau ysgol!

Enw.....

Beth yw'ch barn chi ynglŷn ag ysgol? Llenwch y wyneb hwn i ddangos sut rydych chi'n teimlo am yr ysgol.

Beth yw enw eich ysgol?

Beth yw'r peth gorau amdani?

Beth fydde chi'n methu gwneud tasech chi ddim yn gallu darllen neu ysgrifennu?

Beth yw'r peth gwaethaf amdani?

Dyma Fatimata a'i brawd Musah. Mae Fatimata yn 11 mlwydd oed ac mae Musah yn 13. Maen nhw'n byw yn Ghana, gwlad brydferth iawn yng ngorllewin Affrica.

'Rydw i'n wirioneddol eisiau mynd i'r ysgol,' meddai Fatimata

Ond mae Ghana yn wlad dlawd a does dim digon o ysgolion i bawb. Nid oedd Fatimata a Musah yn gallu mynd i'r ysgol nes i fudiad yn Ghana o'r enw SEND helpu eu pentref i ofyn i'r llywodraeth sefydlu ysgol. Mae SEND yn cael help gan elusen o'r enw Cymorth Cristnogol.

Nawr mae Fatimata a Musah yn gallu mynd i'r ysgol.

Cymorth Cristnogol/Olivia Arthur

'Yr hyn fyddai'n fy ngwneud i fwyaf hapus yw tase pob plentyn yn Ghana yn gallu mynd i'r ysgol,' meddai Musah

Dyw e hi ddim yn hawdd gwybod bob amser beth fedrwn ni ei wneud pan welwn ni rywbeth yn digwydd yn y byd sy'n edrych yn annheg. Adeg y Pentecost, fe anfonodd Duw'r Ysbryd Glân at y disgyblion i'w helpu nhw a'u gwneud nhw'n ddewr er mwyn iddynt ddweud wrth bobl am Iesu. Gallwn ni ofyn i Dduw i'n helpu ni i ddweud pan fod rhywbeth yn annheg a cheisio ei newid.

'Mae mynd i'r ysgol yn beth da oherwydd mae'n golygu y bydda i'n gallu cael swydd a phrynu pethau i mi fy hun ac i'm teulu,' esbonia Fatimata

? Beth fedrech chi ei wneud i helpu gwireddu breuddwyd Musah?

Pam na wnewch chi:

- wneud ffrâm luniau a rhoi llun Fatimata a Musah ynddi (gwnewch yn siŵr eich bod wedi gorffen y posau sydd ar yr ochr arall cyn i chi dorri'r llun allan). Fe allech hongian y llun er mwyn eich atgoffa i weddïo drostynt hwy ac elusennau fel Cymorth Cristnogol. Neu fe allech ei ddangos i eraill a dweud wrthynt am yr hyn yr ydych wedi ei ddysgu.
- godi arian fel bod Cymorth Cristnogol yn gallu helpu mwy o bobl fel Fatimata a Musah. Trafodwch gydag arweinydd y grŵp beth allwch chi ei wneud.
- ddarganfod mwy am blant o gwmpas y byd trwy fynd i www.globalgang.org

© Cymorth Cristnogol Rhagfyr 2007

Posau

Torri'r côd

Defnyddiwch y lluniau sydd uwchben pob llythyren i ddatrys y côd isod a gweithio allan pwy anfonodd Duw i helpu'r disgyblion ar ddydd y Pentecost.

A	B	C	Ch
D	Dd	E	F
Ff	G	Ng	H
I	L	Ll	M
N	O	P	Ph
R	Rh	S	T
Th	U	W	Y

___	___				
___	___	___	___	___	___
___	___	___	___		

Musah mewn dryswch

Helpwch Musah i gyrraedd yr ysgol cyn gynted â phosibl.



Darlun-iwch hwn

Torrwch y sgwariau isod allan a'u defnyddio i lenwi'r grid fel bod pob llun yn ymddangos unwaith ym mhob rhes a cholofn.





© Cymorth Cristnogol Rhagfyr 2007

Pam na wnewch chi helpu pobl fel Fatimata a Musah trwy wneud sawl blwch cynilo a'u rhoi i'ch teulu a'ch ffrindiau i'w llenwi gydag arian mân. Pan fyddant yn llawn, ewch â nhw yn ôl at arweinydd eich grŵp neu drefnydd Wythnos Cymorth Cristnogol.

Templed blwch cynilo

1. Gludiwch y templed ar gerdyn a thorrwch ef allan.
2. Addurnwch eich blwch. Cofiwch dorri twll ynddo ar gyfer yr arian!
3. Plygwch ar hyd y llinellau dotiog a chysylltwch y llythrennau â'i gilydd (A i A, B i B, ac ati) i ffurfio blwch sgwâr.
4. Rhowch lud ar hyd yr ymylon i ddal popeth yn eu lle.
5. Llenwch eich blwch ag arian.



Pam na wnewch chi:

- gynnal cystadleuaeth i weld pa flwch cynilo sydd wedi ei addurno orau
- rannu losin! Mae rhai blychau bach losin yn berffaith ar gyfer casglu arian. Gallech brynu rhai i'w rhoi i'ch ffrindiau, eich teulu a phobl yr eglwys, cyn belled â'u bod nhw'n addo dod â nhw yn ôl yn llawn o arian ar ôl bwyta'r losin.

www.cymorthcristnogol.org.uk
Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cwmni 5171525

© Cymorth Cristnogol Rhagfyr 2007